# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – ADDYSG A PHOBL IFANC

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 10 AWST 2016 AM 4.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| J P Curtice | C R Doyle | C R Evans |
| M B Lewis | R V Smith | L V Walton |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): H M Morris a/ac C Thomas

**Hefyd:** Y Cynghorydd J A Raynor - Aelod y Cabinet dros Addysg

**Swyddogion**
Lindsay Harvey – Prif Swyddog Addysg
Jo-Ann Walsh – Rheolwr Cadw mewn Cysylltiad
Gareth Borsden – Gwasanaethau Democrataidd

16 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

17 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2016 yn gofnod cywir

18 **GYRFA CYMRU GORLLEWIN - PARODRWYDD POBL IFANC I WEITHIO**

Dywedodd Jo-Ann Walsh nad oedd cynrychiolydd Gyrfa Cymru Gorllewin, Wendy Williams, yn gallu dod i'r cyfarfod, ond bydd yn gallu dod i'r cyfarfod ar 14 Medi.

**PENDERFYNWYD** gohirio'r eitem tan gyfarfod mis Medi.

19 **FFIGURAU YSGOL NEET**

Rhoddodd Jo-Ann Walsh adroddiad llafar a dosbarthodd gyfres o ystadegau NEET fesul ysgol ac EOTAS ar gyfer y cyfnod 2013-2015.

Roedd yr wybodaeth ganlynol hefyd wedi'i chynnwys yn y papur:

- Olrhain NEET 16 oed

- NEET fesul ysgol mewn lleoliadau ac 8 mis yn ddiweddarach
- NEET fesul ysgol - tuedd 3 blynedd
- NEET cyffredinol fesul statws - tuedd 3 blynedd
- Grŵp EOTAS fesul statws - tuedd 3 blynedd
- Llwybrau EOTAS
- Addysg Cyfnod Allweddol 4
- Step Ahead
- Tiwtora gartref

Bu'r pwyllgor yn trafod yn fanwl y ffigurau a'r ystadegau amrywiol ac yn gofyn cwestiynau ar y pynciau canlynol, a gwnaeth y swyddog ymateb yn briodol:

- Sut mae'r ffigurau'n cael eu casglu, cysylltu ag ysgolion, colegau etc.
- Arolwg cyrchfan a gynhaliwyd ar 31 Hydref
- Amrywiad rhwng ffigurau pobl ifanc 17 ac 18 oed
- Cymharu a symud ffigurau mewn ysgolion unigol
- Ymrwymiad Gyrfa Cymru Gorllewin
- Ymrwymiad timau allgymorth a gweithwyr arweiniol
- Cysylltiadau â Careers Plus, Canolfan Byd Gwaith a defnyddio data AGPh
- Materion o ran pobl ifanc yn 'cwympo drwy'r rhwyd' a ddim yn cael eu holrhain na'u cofnodi
- Tuedd gyffredinol niferoedd NEET ar i lawr
- Sut mae pobl ifanc sy'n gadael ysgol/coleg yn cael eu holrhain a chyrsiau ychwanegol/amgen yn cael eu darparu gan golegau er mwyn annog pobl ifanc i aros yn y byd addysg
- Cefnogaeth ychwanegol a dargedir ar gyfer plant EOTAS
- Cefndir ac amgylchiadau'r categorïau gwahanol o bobl ifanc a nodir yn y data
- Datblygu cysylltiadau â'r Adran Tai
- Rhaglen Symud Ymlaen gan Lywodraeth Cymru
- Prosiect Cynnydd
- Cydnabod bod llawer o bobl ifanc am weithio ac nid ydynt am barhau yn y byd addysg
- Yr angen i gael pobl ifanc i'r byd gwaith gyda chyfleoedd hyfforddi drwy gynlluniau priodol megis rhaglenni prentisiaid.

Cwestiynwyd yr ystadegau gan y Cynghorydd Lewis gan nodi un achos penodol o ddau berson ifanc yn ei ward nad oedd wedi cael unrhyw gysylltiad â'r cyrff neu'r asiantaethau amrywiol a nodwyd. Cytunodd y swyddog i gysylltu â'r cynghorydd yn uniongyrchol ac ymchwilio ymhellach i'r achosion unigol.

**CYTUNWYD** i gofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 20 ADBORTH O DDEFNYDD YSGOLION O DDATA PABAN.

Rhoddodd Lindsay Harvey yr wybodaeth ddiweddaraf i aelodau yn dilyn ei gyfarfodydd diwedd tymor â phenaethiaid y sector cynradd ac uwchradd.

Dywedodd fod ysgolion wedi nodi'r chwe maes allweddol canlynol lle mae data VAP yn hynod ddefnyddiol iddynt:

- Gosod Targedau
- Strategaethau Ymyrryd
- Diogelu
- Cyswllt Rhieni
- Partneriaethau Aml-Asiantaeth
- Cefnogaeth Bontio

Amlinellodd hefyd y meysydd canlynol lle'r oedd ysgolion wedi'u nodi'n hynod ddefnyddiol iddynt:

- Manteision symud pobl ifanc o lefel pump i ddau
- Gallu olrhain perfformiad am yn ôl
- Athrawon yn gallu grwpio disgyblion o allu gwahanol mewn ffrydiau dysgu ar wahân

Nododd fod y newidiadau canlynol wedi'u hamlinellu gan ysgolion fel y rhai a allai fod yn fuddiol, gan nodi'r newidiadau i Ddata VAP o'r tymor nesaf a fyddai'n cael eu gwneud o ganlyniad i'r awgrymiadau:

- Mewnbwn a Dangosyddion AAA - byddant bellach yn cael eu ehangu o 2 i 4
- Mesur Prydau Ysgol am Ddim - bydd yn cael ei ehangu i gynnwys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- Cyflwyno Sesiynau Hyfforddiant Ffurfiol i Ysgolion ar Ddata VAP (gall aelodau'r PCC hefyd fynd os ydynt yn dymuno)

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi'r adborth gan ysgolion a'r newidiadau i'r Data VAP.

## 21 CYNLLUN GWAITH.

Trafododd yr aelodau'r diweddaraf i'r rhaglen waith ddrafft ar gyfer y pwyllgor.

Dywedodd Lindsay Harvey y byddai'n dosbarthu gwybodaeth gefndir i aelodau am Ysgol Pentrehafod cyn yr ymweliad ym mis Medi.

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi'r rhaglen waith ddiweddaraf

Daeth y cyfarfod I ben am 5.05 pm

**CADEIRYDD**